| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Cyngor Gwynedd |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 30 Ionawr, 2020 |
| **TEITL YR EITEM** | Y Fframwaith Maethu Cenedlaethol |
| **PWRPAS** | Rhoi diweddariad ar y fframwaith |
| **AWDUR** | Aled Gibbard, Uwch Reolwr |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Dilwyn Morgan |

## 1. Cyflwyniad

**1.1** Mae'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol (FfMC) yn un o bedwar ffrwd gwaith wedi ei noddi gan y Grŵp Llywio Strategol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn ymateb i alwad gan rhanddeiliaid allweddol bod angen mwy o gydweithrediad i ymateb yn strategol, ar draws yr holl sector, y pryderon cynyddol ynglŷn ag effeithlonrwydd a chynaladwyedd gwasanaethau maethu yng Nghymru. Fe gyhoeddwyd adroddiad Cam 1 o'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol ym Mawrth 2016. Roedd yn cynnwys dadansoddiad manwl, crynodeb o ymatebion ymgynghori a deg argymhelliad i weithredu.

**1.2** Yr argymhllion oedd:

- Datblygu Fframwaith Maethu Cenedlaethol, gan gynnwys swyddogaethau ar lefel cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gan gychwyn ar y dasg o roi strwythurau addas yn eu lle.
- Sefydlu balans priodol rhwng gofal maeth awdurdod lleol, darparwyr trydydd sector a darparwyr masnachol mewn perthynas ag amcanion polisi cenedlaethol, ystyriaethau ansawdd gwasanaeth ynghyd a gwerth am arian.
- Sefydlu cydweithrediad gwasanaethau cyhoeddus cenedlaethol yn y maes maethu, gan ddarparu gwasanaeth ar lefel cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan gynnwys yr holl wasanaeth perthnasol a ddarperir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol.
- Cynhyrchu fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu, i gynnwys hyfforddi a chefnogi gofalwyr maeth.
- Cyflwyno fframwaith perfformiad ac adnoddau cenedlaethol, gan alinio'r gwaith gyda datblygiad y Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymreig (WCCIS). Byddai'r fframwaith yn cael ei weithredu fesul cam. Dylid datblygu fframwaith perfformiad penodol ar gyfer y sector annibynnol (darparwyr trydydd sector a masnachol).
- Cyflwyno safle we genedlaethol, cyfryngau cymdeithasol, brand a hunaniaeth ar gyfer gofal maeth yng Nghymru, fel sail ar gyfer strategaeth marchnata i recriwtio gofalwyr maeth a gwella cyfathrebu.
- Sicrhau mwy o gysondeb yn y defnydd o ofal carennydd i blant mewn gofal, gan adeiladu ar y papur sgopio gwreiddiol yn Cam 1.
- Datblygu trefniadau cenedlaethol ar gyfer comisiynu lleoliadau, o ba bynnag sector ond gan adeiladu ar waith y 4C's (Children's Commissioning Consortium Cymru).
- Harmoneiddio polisïau ar gyfer talu lwfansau a ffioedd i ofalwyr maeth awdurdodau lleol.
- Meincnodi arfer gorau mewn rhiantu corfforaethol ar draws cynghorau a gwasanaethau cyhoeddus eraill - i wella deilliannau i blant a chynyddu gwydnwch lleoliadau maethu.

**1.3** Mae gwaith y FfMC yn ffrwd gwaith sylweddol fel rhan o raglen sydd wedi ei gytuno gan y Grŵp Ymgynghorol y Gweinidog ar gyfer Gwella Deilliannau i Blant. Mae'n rhan o Ffrwd Gwaith 2 o'r MAG - Darparu a chomisiynu ystod o leoliadau o safon uchel, sy'n fforddiadwy a hyblyg i gyfarfod anghenion ac amgylchiadau amrywiol plant mewn gofal.

**1.4** Mae’r ffrwd gwaith wedi mabwysiadu nifer o egwyddorion dylunio sy’n cynnwys y canlynol:

- Dylid cyfatebu plant gyda lleoliadau sy’n medru cyrraedd eu hanghenion. Lle mae hynny’n bosib dylai lleoliadau fod yn lleol er mwyn cadw plant yn eu cymunedau, cynnal eu rhwydweithiau a phrofi cyn lleied o aflonyddwch a phosib.
- Bydd anghenion y mwyafrif o blant yn cael eu cyfarfod mewn eilydd deulu (substitute family)
- Dylai awdurdodau lleol anelu i gynyddu’r nifer o ofalwyr maeth sy’n cael eu recriwtio a’u cefnogi’n lleol, gan sicrhau bod ganddynt y sgiliau a’r cymwyseddau i ofalu am blant gydag ystod o anghenion.

**1.5** Dylai pob awdurdod lleol gael strategaeth gomisiynu’n ystyried sut y byddent yn ymdrin â chyflenwad a darparu amrywiaeth o opsiynau lleoli. Dylai’r strategaethau gynnwys sut mae’r awdurdod lleol yn mynd i sicrhau opsiynau lleoli addas ar gyfer y plant mwyaf bregus gydag anghenion sy’n nodi anawsterau posib wrth drefnu lleoliadau.

**1.6** I bwrpas datblygu’r FfMC mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £400,000 o gyllid ar ei gyfer. Fe ddefnyddiwyd yr arian drwy benodi rheolwr rhaglen genedlaethol a rheolwr datblygu rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth. Bu i Ogledd Cymru dderbyn £40,000 i benodi rheolwr datblygu rhanbarthol.

**1.7** Roedd cynllun datblygu rhanbarthol (gweler atodiad 1) ac adroddiad wedi ei gynnwys yn adroddiad Cam 3 y FfMC.

**1.8** Fe gyflwynwyd achos busnes i Lywodraeth Cymru a Grŵp Ymgynghorol y Gweinidog yn Nhachwedd 2019 yn seiliedig ar ganfyddiadau a datblygiadau'r ffrydiau gwaith o dan y FfMC. Bu Cymdeithas Plant St David’s ac AFA Cymru’n llwyddiannus yn eu tendr ar gyfer y rôl rheolwr rhaglen genedlaethol ac fe benodwyd Sarah Thomas I arwain ar y rhaglen.

## 2. Y 5 Ffrwd Gwaith yn rhaglen waith y FfMC:

### 2.1 fframwaith Perfformiad

a) Mae Date FfMC wedi cael eu coleddu dros 3 blynedd. Yn 2018-19 fe yrwyr y data gan awdurdodau lleol unigol, gyda dadansoddiad rhanbarthol a chenedlaethol a datblygu adroddiadau data perfformiad.
b) Mae dadansoddiad anghenion lleoli wedi ei gwblhau er mwyn adnabod “unmet need”ar lefel lleol a rhanbarthol ( yn seiliedig ar leoliadau newydd a drefnwyd yn ystod y flwyddyn / lleoliadau gyda darparwyr annibynnol / trefniadau preswyl nad oeddent yn cyd-fynd gyda Chynllun Gofal a Chefnogaeth Rhan 6 y plentyn).
c) Fe drafodwyd Adroddiad Dadansoddiad Angen Rhanbarthol dienw yn y Grŵp Rheolwyr Maethu (5 Medi a 3 Hydref), Grŵp Recriwtio Rhanbarthol ( 27 Medi) a Grŵp Penaethiaid Gwasanaeth ( 29 Tachwedd).
d) Prif ganfyddiadau’r adroddiad rhanbarthol:

- 1,250 o blant / pobl ifanc mewn gofal yn rhanbarthol, gyda 853 mewn gofal maeth.
- 20% mewn trefniadau lleoliadau gyda rhieni.
- 20% mewn gofal maeth carennydd.
- Mae’r nifer o blant mwn darpariaeth annibynnol wedi cynyddu o 179 (y flwyddyn hyd Mawrth 2018) i 213 (y flwyddyn hyd Mawrth 2019) ac yn parhau i gynyddu trwy 2018-19.
- O’r plant hynny mewn gofal maeth (Carennydd, cyffredinol a darparwyr annibynnol) mae’r ystod amrywiaeth rhanbarthol yn 12%-56%; ‘r plant hynny sydd mewn gofal maeth cyffredinol neu ddarparwyr annibynnol mae’r ystod yn cynyddu rhwng 19% - 75%
- Mae’r garfan sydd mewn gofal maeth carennydd yn 39% a gofal maeth cyffredinol yn 61%. Mae rhai awdurdodau yn adrodd ar ganran 50/50.

- Mae’r nifer mewn gofal carennydd yn parhau i gynyddu tra nad yw’r waelodlin ar gyfer gofalwyr maeth cyffredinol yn cael ei gynnal. Roedd 80% o gapasiti asesu yn mynd ar asesu gofal carennydd.
- Rhagwelir bod angen 180 gofalwr maeth cyffredinol newydd dros y 3 blynedd nesaf er mwyn ymateb i’r diffyg presennol yn ogystal â’r nifer o ofalwyr a rhagwelir yn gadael.
- Mae’r gwariant presennol ar ddarpariaeth annibynnol yn ystyriaeth sylweddol; mae awdurdodau yn ceisio canolbwyntio ar beidio colli gofalwyr e.e. darparu cynnig craidd i ofalwyr megis polisiau “Fostering Friendly” a gostyngiad neu ddiddymiad yn y Dreth Cyngor.
- Mae’r Grŵp Tasg a Gorffen Perfformiad a Data Cenedlaethol wedi cytuno ar dataset newydd sydd wedi ei lunio yn dilyn profiad o gasglu’r data a’r angen i blethu gyda gofynion casglu data eraill.

**2.2 Datblygu Gwasanaeth Gofal Carennydd**

a) Mae 20% o blant mewn gofal yn rhanbarthol gyda gofalwyr maeth Carennydd.
b) Mae 33% o’r plant hynny o dan 5 oed.
c) Mae Canllaw Arfer Da ar gyfer Gofal Carennydd wedi ei gyhoeddi. (gweler atodiad 2)
d) Fe gynhaliwyd cynhadledd gofal carennydd rhanbarthol ar 11 Hydref 2018.
e) Mae rhai awdurdodau lleol yn ail strwythuro eu timau er mwyn delio gyda’r cynnydd yn y niferoedd.
f) Mae pob awdurdod lleol yn datblygu gwasanaethau cefnogi ar gyfer gofalwyr maeth carennydd gan gynnwys cryfhau trefniadau ar gyfer Gwarcheidiaeth Arbennig.

**2.3 Fframwaith Dysgu a Datblygu**

a) Cynhaliwyd lansiad rhanbarthol 21 Tachwedd 2019 (gweler y fframwaith yn atodiad 3).
b) Mae cynllun gweithredu’n cael ei ddatblygu ac yn cynnwys yr holl rhanddeiliaid (gofalwyr maeth, gwasanaethau maethu, unedau datblygu gweithlu, aelodau panel).
c) Mae Grwpiau Tasg a Gorffen wedi sefydlu (cyfarfod nesaf 22 Ionawr 2020).

**2.4 Marchnata, Brandio a Recriwtio**

a) Dadansoddiad Bwlch Marchnata wedi ei wneud gan Matt Clarke o Narrative Edge. Y cynnig yw “strapline” cenedlaethol Maethu Cymru / Fostering Wales gydag awdurdodau lleol yn defnyddio hynny yn eu marchnata. Mae datblygiadau yn yr awdurdodau lleol yn y gogledd yn adlewyrchu ac yn cydfynd gyda’r cynnig o Maethu Cymru / Fostering Wales.
b) Mae Gogledd Cymru (ynghyd a’r safle we Canolbarth a Gorllewin Cymru arfaethedig) yn amrywio rhywfaint o gymharu â rhanbarthau eraill. Mae Gogledd Cymru’n cymharu’n ffafrion gyda rhanbarthau eraill o safbwynt gweithgaredd synhwyrol recriwtio ac o ran arbenigedd, yn arbennig mewn perthynas â datblygiadau rhanbarthol a gweithio gyda'i gilydd.
c) Mae Swyddogion Recriwtio rhanbarthol yn cyfrannu’n sylweddol i ddatblygiadau recriwtio cenedlaethol.
d) Mae’r dadansoddiad Bwlch Marchnata yn adnabod bod angen buddsoddiad sylweddol ar yr agwedd marchnata.
e) Cynnig Craidd - mae esiamplau gwych yng Ngogledd Cymru (gan gynnwys Gostyngiadau/diddymiad yn Nhreth y Cyngor A polisiau “Fostering Friendly”, gyda’r rhain yn dylanwadu ar ddatblygiadau cenedlaethol ac mae hyn wedi ei nodi yn yr achos busnes I Lywodraeth Cymru).
f) Bydd y Dadansoddiad Angen Rhanbarthol a’r Dadansoddiad Bwlch Marchnata yn llywio recriwtio rhanbarthol a lleol ynghyd a chryfhau’r achos busnes I Lywodraeth Cymru.

**2.5 Harmoneiddio Lwfansau a Ffioedd**

a) Mae adroddiad draft ar Harmoneiddio Lwfansau a Ffioedd wedi ei gwblhau gan y Grŵp Harmoneiddio Lwfansau a Ffioedd. Mae’r adroddiad wedi ei gyflwyno i’r Grŵp Llywio Strategol a’r Grŵp Monitro Grantiau, yn seiliedig ar fabwysiadu opsiynau amrywiol. Yn dilyn ei gyflyno I Grŵp Penaethiaid Plant Cymru Gyfan mae rhaglen waith pellach wedi ei ddatblygu a bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno cyn diwedd Mawrth 2020.
b) Mae Canllaw Arfer da a Pholisi yn mynd i gael ei ddatblygu.
c) Bydd awdurdodau unigol yn cyflwyno gwybodaeth pellach, gan ystyried oblygidau lleol a rhanbarthol, a hynny wedi ei adlewyrchu yn y rhaglen waith rhanbarthol.
d) Mae’r angen i gryfhau mewnbwn arbenigol adrannau cyllid wedi ei adnabod ar lefel rhanbarthol er mwyn galluogi gwaith mapio mwy manwl - mae swyddog cyllid ar gyfer y rhanbarth wedi ei ddynodi.

## 3. Blaenoriaethau Rhanbarthol

**3.1** Dadansoddi Strategaethau Lleoli unigol a datblygu Strategaeth ranbarthol.

**3.2** Cynyddu gweihtgaredd recriwtio a chapasiti asesu a lleihau’r ddibyniaeth ar Asiantaethau Maethu Annibynnol : ceiso symud tuag at gomisiynu mwy strwythuriedig yn hytrach na “spot purchase”.

**3.3** Ceisio sicrhau dealltwriaeth a’r syniad o berchnogaeth gorfforaethol e.e. Cynnig Craidd, Polisi “”Fostering Friendly” a gostyngiadau Treth Cyngor.

**3.4** Ar lefel lleol mae ymrwymiad da gan y Gwasanaeth Maethu i ddatlbygu’r FfMC a cheir cynrychiolaeth gan y gwasanaeth ar y 5 ffrwd gwaith. Mae’r holl awdurdodau yn y gogledd yn cydweithio’n dda ac yn cyfarfod yn rheolaidd I ddatblygu a gweithredu’r fframwaith. Mae Rheolwr Maethu Gwynedd yn mynychu ( ac yn gadeirydd presennol) forwm rheolwyr maethu Gogledd Cymru. Mae Pennaeth yr Adran Blant yn cynrychioli Pennaethiaid Cymru Gyfan ar y Grwp Ymgymghorol i’r Gweinidog fel swyddog arweiniol cenedlaethol ar gyfer y fframwaith.

**3.5** Yn ychwanegol i’r blaenoriaethau rhanbarthol uchod, mae’r gwasanaeth yng Ngwynedd ar hyn o bryd yn adolygu ei strwythur, sy’n adlewyrchiad o’r gofynion ar y gwasanaeth a amlygwyd yn y dadansoddiad angen rhanbarthol er mwyn cael gwell balans wrth geisio asesu a chefnogi gofalwyr maeth carennydd a Gofalwyr maeth cyffredinol.